

## Canllawiau ar Wrandawiadau o Bell

### Beth yw gwrandawriad o bell?

1. Mae gwrandawriad o bell (a elwir weithiau'n wrandawriad rhithwir) yn wrandawriad a gynhelir dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo. Gellir cynnal gwrandawriad o bell yn gyfan gwbl neu'n rhannol dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo.
2. Gall gwrandawriad o bell olygu bod pob cyfranogwr yn mynychu o bell neu gall rhai cyfranogwyr fod yn bresennol dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo (gwrandawriad hybrid), a chyfranogwyr eraill yn bresennol wyneb yn wyneb mewn lleoliad ffisegol.

### A ellir cynnal gwrandawiadau o bell?

3. Nid yw Deddf Optegwyr 19891 a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor Optegol Cyffredinol 20132 yn gwahardd gwrandawiadau o bell ac, o dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r angen i gynnal gwrandawriad er mwyn osgoi oedi.
4. Rhaid i wrandawiadau o bell gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol; mae'r Canllawiau hyn yn amlinellu'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf Optegwyr a Rheolau FTP.

### Y broses ar gyfer rhestru gwrandawiadau o bell

5. Gall y tîm Gwrandawiadau restru mater ar gyfer gwrandawriad o bell mewn achosion priodol, yn unol â phrotocol gwrandawiadau o bell y Cyngor Optegol Cyffredinol.

### Penderfynu a ddylid cynnal gwrandawriad o bell

6. Ym mhob achos, rhaid i'r Pwyllgor sicrhau bod achosion yn deg ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae hyn yn berthnasol i bob gwrandawriad, p'un a oes cytundeb parti i wrandawriad o bell ai peidio.
7. Yn ystod argyfwng COVID-19, mae'r Llysoedd wedi ystyried a ddylid gwrandawrio achosion o bell. Mae llawer o ffactorau i'w hystyried, a'r ffactor pwysicaf yw mynediad at gyfiawnder a thegwch.
8. Yn *Municipio de Mariana v BHP Group PLC3*, rhoddodd y Llys arweiniad ar sut i ystyried ceisiadau i ymestyn amser ar gyfer cydymffurfio â chyfarwyddiadau, neu ohirio gwrandawiadau yn ystod argyfwng COVID-19:
  - a. Rhaid ystyried pwysigrwydd parhau i weinyddu cyfiawnder. Mae oedi cyfiawnder yn gyfystyr â gwrthod cyfiawnder hyd yn oed pan fydd yr oedi'n deillio o ymateb i'r amgylchiadau presennol.
  - b. Dylid cydnabod i ba raddau y gellir datrys anghydfodau mewn gwirionedd yn deg drwy wrandawiadau o bell.

---

1 Deddf Optegwyr 1989 [www.optical.org/about\\_us/legislation/opticians\\_act.cfm](http://www.optical.org/about_us/legislation/opticians_act.cfm)

2 Rheolau Addaswydd i Ymarfer Cyngor Optegol Cyffredinol 2013 yn  
[www.optical.org/about\\_us/legislation/rules\\_and\\_regulations.cfm](http://www.optical.org/about_us/legislation/rules_and_regulations.cfm)

3 Municipo de Mariana & Ors v BHP Group PLC & Ors [2020] EWHC 928 (TCC)

- c. Rhaid i'r llysoedd fod yn barod i gynnal gwrandawiadau o bell mewn amgylchiadau lle na fyddai symudiad o'r fath wedi bod yn bosibl ond ychydig wythnosau yn ôl.
  - d. Dylid archwilio'r posibilrwydd o wrandawriad o bell yn drylwyr a'r ffyrdd y gellid sicrhau gwrandawriad o'r fath yn gyson â chyfiawnder, cyn y dylai'r llys dderbyn na ellir dod i benderfyniad cyfiawn mewn gwrandawriad o'r fath.
  - e. Mae'n anochel y bydd y cwestiwn ynghylch a ellir cael datrysiad teg drwy wrandawriad o bell yn dibynnu ar achosion penodol. Bydd nifer o ffactorau'n dod i'r amlwg, ac mae'r cwestiwn a fydd, ac os felly i ba raddau y bydd tystiolaeth fyw a chroesholi yn angenrheidiol yn debygol o fod yn bwysig mewn llawer o achosion, . Bydd achosion lle na all y llys fod yn fodlon y gellir datrys y mater yn deg drwy gynnal gwrandawriad o bell.
9. Yn achos *Re P4*, nododd y Llys rai ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu bwrw ymlaen â gwrandawriad achos teulu o bell; mae'r ffactorau hyn hefyd yn berthnasol i achosion Addasrwydd i Ymarfer:
- a. Cyfleusterau a thechnoleg leol sydd ar gael.
  - b. Personoliaethau a disgwyliadau cyfranogwyr allweddol.
  - c. Categori'r achos neu effaith ei ganlyniad.
10. Mae hwn yn faes sy'n esblygu'n gyflym gydag achosion newydd yn cael eu hystyried bob dydd a dylid ystyried hyn wrth ystyried pob achos.
11. Efallai y bydd materion ychwanegol sy'n berthnasol i achosion unigol a dylai'r Pwyllgor ystyried yr holl faterion perthnasol, megis anghenion corfforol ac emosiynol cyfranogwyr, ac effaith oedi pellach ar weinyddu cyfiawnder.

### **Ffactorau sy'n berthnasol i bob gwrandawriad o bell**

12. Dylai'r Pwyllgor ystyried yr holl ffactorau cyfreithiol perthnasol, yn benodol:
- a. Mae rheol 43 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorydd cyfreithiol fod yn bresennol ym mhob gwrandawriad.
 

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y cynghorydd cyfreithiol yn bresennol drwy gydol gwrandawriad o bell.
  - b. Mae rheol 44 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorydd clinigol fod yn bresennol yn y gwrandawriad pan fydd iechyd corfforol neu feddyliol y cofrestrai yn cael ei ystyried.
 

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y cynghorydd clinigol yn bresennol drwy gydol gwrandawriad o bell.

4 Re P (Plentyn A: gwrandawriad o bell) (2020) EWFC 32

c. Mae rheol 45 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorydd arbenigol fod yn bresennol mewn gwrandawriad lle y'i penodwyd mewn perthynas â mater sydd i'w ystyried mewn prif wrandawriad.

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y cynghorydd arbenigol yn bresennol drwy gydol gwrandawriad o bell.

d. Mae rheol 60 yn mynnu bod cofnod gair am air o bob gwrandawriad yn cael ei gymryd.

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod siaradwyr yn cael eu clywed a'u cofnodi'n briodol.

13. Dylai'r Pwyllgor atgoffa'r holl gyfranogwyr na ddylid recordio'r achos, ac na ddylid datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor.

14. Gall Pwyllgor benderfynu cyflwyno gwahanol ddulliau o weithio yn ystod gwrandawriad o bell i sicrhau bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn deg ac yn briodol, gan gynnwys:

a. Sicrhau egwylliau priodol, y gallai fod eu hangen yn amlach mewn gwrandawriadau o bell.

b. Galluogi cyfranogiad priodol gan bawb. c.

Rheoli dylanwad gormodol a chyfrinachedd.

d. Arsylwi ar yr effaith ar ymddygiad priodol a pharchus.

e. Sicrhau bod y trawsgrifwr yn gallu gwneud cofnod cyflawn a chywir.

### **Bwrw ymlaen yn absenoldeb y cofrestrai**

15. Efallai y bydd angen cymryd gofal ychwanegol wrth ystyried a ddylid bwrw ymlaen yn absenoldeb cofrestrai, yn enwedig lle nad yw'r cofrestrai wedi'i gynrychioli ac wedi nodi ei fod yn bwriadu mynychu.

16. Bydd y Swyddog Cyflwyno yn darparu tystiolaeth o'r ymdrechion a wneir i roi gwybod i bartïon, yn enwedig cofrestrai heb gynrychiolaeth, am sut y gallant gymryd rhan o bell.

### **Ffactorau sy'n berthnasol i geisiadau am Orchymyn Interim**

17. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r heriau gwahanol sy'n codi pan fydd gwrandawriad Gorchymyn Interim o bell yn cael ei gynnal, a dylai ystyried:

a. Mae rheol 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad o wrandawriad y gorchymyn interim gynnwys y lleoliad. Mewn gwrandawriadau a gynhelir o bell yn gyfan gwbl, bydd y lleoliad yn cael ei restru fel un drwy gyfleusterau fideo-gynadleda neu delegynadleda.

b. Mae rheol 20(2) yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn interim fod yn wrandawriad preifat. Dylid bod yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw bobl heb awdurdod yn bresennol yn ystod y gwrandawriad o bell.

- c. Mae rheol 20(8)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor drafod yn breifat.  
Dylid bod yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw bobl heb awdurdod yn bresennol yn ystod eu hystyriaethau.

- d. Os bydd cofrestrai yn siarad yn uniongyrchol yn ystod gwrandawriad Gorchymyn Interim (h.y. nid drwy ei gynrychiolydd), dylid cymryd camau i ystyried a yw'r cofrestrai yn rhoi tystiolaeth (yn unol â Rheol 20(4) Rheolau FTP) neu'n gwneud cyflwyniadau.
- e. Mae Rheol 20(8)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyhoeddi ei benderfyniad, ynghyd â'r rhesymau dros ei benderfyniad, yn gyhoeddus ac felly dylid bod yn ofalus i sicrhau bod pob parti, ac unrhyw arsylwyr, yn cael cynnig cyfle i fod yn bresennol ar y cyswllt ffôn / fideo pan fydd y penderfyniad yn cael ei gyflwyno.

### **Ffactorau sy'n berthnasol i wrandawiadau Adolygu**

18. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r heriau gwahanol sy'n codi pan gynhelir gwrandawriad adolygu o bell, a dylai ystyried:
  - a. Mae rheol 58(1) yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn interim fod yn wrandawriad preifat.

Dylid bod yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw bobl heb awdurdod yn bresennol yn ystod y gwrandawriad o bell.

### **Ffactorau sy'n berthnasol Brif wrandawiadau**

19. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r heriau gwahanol sy'n codi pan gynhelir prif wrandawriad o bell.

#### *Gwrandawiadau cyhoeddus a phreifat*

20. Mae rheol 25(1) yn ei gwneud yn ofynnol i brif wrandawiadau gerbron y Pwyllgor gael eu cynnal yn gyhoeddus.

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod pob parti, ac unrhyw arsylwyr, yn cael cynnig y cyfle i fod yn bresennol ar y ffôn / cyswllt fideo, er mwyn i unrhyw bartïon sydd â diddordeb allu arsylwi'r gwrandawriad. Bydd microffon arsyllwyr yn cael ei dewi gan y GOC.

21. Caiff y Pwyllgor benderfynu bod yr achos, neu unrhyw ran o'r achos, fod yn wrandawriad preifat, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol o ystyried y materion a nodir yn Rheol 25(2).

Dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw bobl heb awdurdod yn bresennol os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen dechrau gwrandawriad yn breifat, neu newid gwrandawriad cyhoeddus i un preifat yn ystod y gwrandawriad.

#### *Tystion*

22. Rhaid i dystion dyngu llw, neu gadarnhau, cyn rhoi tystiolaeth (Rheol 42).

Os nad yw'r llyfr sanctaidd perthnasol ar gael i dystion o bell, bydd swyddog y gwrandawriad yn arwain y tyst drwy'r cadarnhad gofynnol.

23. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r risg o ymyrraeth gan dystion,



oherwydd ni fydd tystion yn weladwy yn ystod egwyliau, a dylent ystyried a yw'n ddiogel bwrw ymlaen.

24. Dylid gwahodd tystion i ymuno a rhoi tystiolaeth ar yr adeg briodol yn unig a'u rhybuddio i beidio â thrafod eu tystiolaeth tra byddant dan lw.
25. Os nad yw cofrestrai'n cael ei gynrychioli a'i fod yn siarad yn uniongyrchol yn ystod gwrandawriad, dylid cymryd camau i fynd i'r afael ag a yw'r cofrestrai yn rhoi tystiolaeth neu'n cyflwyno sylwadau.

#### *Tystion agored i niwed*

26. Efallai y bydd angen i'r Pwyllgor gymryd gofal arbennig wrth ystyried beth sy'n deg i dyst agored i niwed. Efallai y bydd rhai tystion agored i niwed, er enghraifft, yn ei chael yn anodd defnyddio'r dechnoleg sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau o bell neu efallai y bydd angen mesurau arbennig arnynt dan Reol 41.

#### *Trefn yr achos*

27. O dan Reol 46, gall y Pwyllgor wrando ar gyflwyniadau a chyhoeddi canfyddiadau ar y ffeithiau, sail amhariad, canfyddiad o amhariad a sancsiwn, mewn camau ar wahân. Dylai'r Pwyllgor roi sylw penodol i p'un ai a ddylid cyfuno dau neu ragor o'r camau hyn, er mwyn lleihau effaith ymyriadau ar y cyfranogwyr.